OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 2800 (Cy.239)

TAI, CYMRU

Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion Rhagnodedig) (Diwygio) (Cymru) 2006

Wedi'u gwneud - -	*17 Hydref 2006*
Yn dod i rym - -	*20 Hydref 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 2(2) a (4) ac 146(1) a (2) o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion Rhagnodedig) (Diwygio) (Cymru) 2006, a deuant i rym ar 20 Hydref 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i geisiadau am grant a wneir i awdurdodau tai lleol yng Nghymru ar 20 Hydref 2006 neu ar ôl hynny(**3**).

Diwygiadau

2. Diwygir Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion Rhagnodedig) 1996(**4**) yn unol â'r rheoliadau a ganlyn.

Rheoliad 2

3. Yn rheoliad 2 (ffurflenni cais am grant)(**5**), ym mharagraff (1) ar ôl "Schedule" rhodder "or a form to the like effect".

(**1**) 1996 p. 53.
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adrannau hyn, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672); *gweler* y cofnod ar gyfer y Ddeddf hon yn Atodlen 1 i'r Ddeddf honno.
(**3**) I gael ystyr "grant" *gweler* adran 1 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996, fel y'i diwygiwyd gan baragraff 2 o Atodlen 3 i Orchymyn Diwygio Rheolaethol (Cymorth Tai) (Cymru a Lloegr) 2002 (O.S. 2002/1860).
(**4**) O.S. 1996/2891, a ddiwygiwyd gan O.S. 1996/3119, O.S. 1997/978, O.S. 1998/809, O.S. 1999/1607, O.S. 1999/3470 (Cy. 56), O.S. 2000/1735 (Cy. 119), O.S. 2001/2071 (Cy. 143), O.S. 2001/4006 (Cy. 332), O.S. 2002/2799 (Cy. 267) ac O.S. 2004/254 (Cy. 29).
(**5**) Amnewidiwyd Rheoliad 2, o ran Cymru, gan Reoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion Rhagnodedig) (Diwygio) (Cymru) 2004 (O.S. 2004/254).

Yr Atodlen

4. Mae'r ffurflen a welir yn yr Atodlen yn cael ei diwygio yn y modd a welir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**6**)

D. Elis-Thomas
17 Hydref 2006 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**6**) 1998 p. 38.